# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – PREIFAT - CRYNODEB

## COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

12:40 – 13:30 | 13/02/24 | Galwad Teams

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Marian Wyn Jones |

| Yn bresennol | | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Marian Wyn Jones | MW-J | Aelod Annibynnol, Cadeirydd | IGDC |
| Ruth Glazzard | RG | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Marilyn Bryan Jones | MB-J | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Yn bresennol | | | |
| Henry Bales | HB | Dirprwy Bennaeth Atal Twyll (hyd at eitem 3.5) | Atal Twyll Caerdydd a'r Fro |
| Stephen Chaney | StC | Pennaeth Archwilio Mewnol Dros Dro | PCGC |
| Nathan Couch | NC | Arweinydd Archwilio Perfformiad, (Iechyd) | Archwilio Cymru |
| Ian Cox | IC | Cyfarwyddwr Cynorthwyol TGCh (hyd at eitem 3.5) | IGDC |
| Mark Cox | MC | Cyfarwyddwr Cyllid Cyswllt (hyd at eitem 3.5) | IGDC |
| Chris Darling | CD | Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Paul Evans | PE | Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio (hyd at eitem 3.5) | IGDC |
| Claire Osmundsen-Little | COL | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | IGDC |
| Julie Robinson | JR | Ysgrifenyddiaeth y Cyfarfod | IGDC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Andrew Strong | AS | Rheolwr Archwilio (hyd at eitem 3.5) | Archwilio Cymru |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol | IGDC |
| Ymddiheuriadau | | Teitl | Sefydliad |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | IGDC |
| Gareth Lavington | GL | Pennaeth Atal Twyll | Atal Twyll Caerdydd a'r Fro |
| Carwyn Lloyd-Jones | CL-J | Cyfarwyddwr TGCh | IGDC |
| Ifan Evans | IE | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | IGDC |
| Darren Griffiths | DG | Archwilio Cymru | Archwilio Cymru |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | FfAS | Fframwaith Asesu Seiber |
| AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig | LIG | Llywodraethu Gwybodaeth |
| | | | |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | **MATERION RHAGARWEINIOL** | | |
| 1.1 | **Croeso a chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod preifat y Pwyllgor. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Cafwyd ymddiheuriadau absenoldeb oddi wrth:-<br>• Alistair Klaas Neill, Aelod Annibynnol<br>• Gareth Lavington, Pennaeth Atal Twyll<br>• Carwyn Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr TGCh<br>• Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Darren Griffiths, Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru | | |
| 1.3 | Datganiadau o Fuddiannau<br>Ni chafwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2 | BUSNES Y CYFARFOD | | |
| 2.1 | Cofnodion y cyfarfod preifat a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>GYMERADWYO'R cofnodion fel cofnod cywir. | Cymerad wywyd | Dim i'w nodi |
| 3 | ARCHWILIO, ATAL TWYLL A RISGIAU | | |
| 3.1 | Camau Gweithredu Archwilio (Preifat)<br>Cyflwynodd Laura Tolley (LT), Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol y Camau Archwilio ar gyfer y sesiwn breifat a thynnodd sylw at y canlynol:<br>Adolygwyd pum cam gweithredu yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf, lle cwblhawyd un, gan adael cyfanswm o bedwar cam gweithredu ar agor.  Derbyniodd y Pwyllgor ddau adroddiad yn y cyfarfod diwethaf a oedd yn cynnwys 14 cam gweithredu newydd.  Ychwanegwyd y rhain at y Cofnod Gweithredu Archwilio Preifat a oedd bellach yn cynnwys cyfanswm o 18 o gamau gweithredu. Nododd y Pwyllgor yr ystyriwyd bod 14 wedi'u cwblhau a bod pedwar ar fin cael eu cwblhau erbyn eu dyddiad targed.<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>NODI'R diweddariad ar Gamau Archwilio ar gyfer SICRWYDD. | Nodwyd. | Dim i'w nodi |
| 3.2 | Adroddiad Archwilio Cymru: Adolygiad o Systemau TG y GIG a Gynhelir yn Genedlaethol gan IGDC<br>Cyflwynodd Andrew Strong, Archwilio Cymru (AS) yr Adolygiad o Systemau TG GIG a Gynhelir yn Genedlaethol gan IGDC a rhoddodd yr uchafbwyntiau canlynol:<br>• Cafodd Archwilio Cymru ei sicrhau ar sail y rheolaethau TG a archwiliwyd fod y gwerthoedd ariannol a gynhyrchwyd gan y systemau ar gyfer 2022/23 yn debygol o fod yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys.<br>• Nodwyd ymatebion y Rheolwyr i'r argymhellion/sylwebaeth ar y camau gweithredu presennol sy'n parhau i fynd rhagddo a chafwyd diweddariad ar 2018.1 gydag argymhelliad y gellid | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cau hwn yn awr. Rhoddwyd diweddariad byr ar 2022.4 a rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod prosiect ar waith.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>NODI Adolygiad Systemau TG GIG a Gynhelir yn Genedlaethol gan IGDC ar gyfer SICRWYDD. | | |
| 3.3 | Adroddiad Cynnydd Atal Twyll<br><br>Cyflwynodd Henry Bales (HB), Dirprwy Bennaeth Atal Twyll, yr Adroddiad Cynnydd Atal Twyll a oedd yn cynnwys eitemau yr ystyriwyd eu bod yn rhy sensitif ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus, a thynnodd sylw at y canlynol:<br><br>• Agorwyd un ymchwiliad yn chwarter 3.<br>• Cynhaliwyd asesiad risg o gardiau credyd ac unrhyw dwyll posibl.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>NODI'R Adroddiad Cynnydd Atal Twyll ar gyfer SICRWYDD. | | |
| 3.4 | Rheoli Asedau<br><br>Cyflwynodd Ian Cox, Cyfarwyddwr Cynorthwyol TGCh (IC) yr adroddiad Rheoli Asedau sef yr adroddiad cyntaf o ganlyniad i argymhelliad o Asesiad Strwythuredig blaenorol. Darparodd IC rai sleidiau gyda throsolwg o Reoli Asedau Ffisegol.<br><br>Mae dwy adran IGDC yn gyfrifol am reoli asedau ffisegol.<br><br>• Roedd gan y Gwasanaethau Cleient nifer uchel, gwerth is, a symudiadau aml o asedau.<br>Bu gwelliant sylweddol yn y ffordd yr oedd hyn yn cael ei reoli.<br>• Roedd gan Wasanaethau Seilwaith craidd (Caledwedd y Ganolfan Ddata) nifer is, gwerth uwch a lleoliad sefydlog o asedau.<br>Gwnaed gwelliannau i'r maes hwn.<br><br>Darparwyd trosolwg o risgiau a mesurau lliniaru.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y gallai'r adroddiad hwn, pan fo'n briodol, gael ei rannu'n gyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>NODI'R adroddiad Rheoli Asedau. | | |
| 3.5 | Llywodraethu Rhaglen - Diweddariad Llafar | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhoddodd Chris Darling ddiweddariad llafar ar y cynnydd hyd yma mewn perthynas â threfniadau Llywodraethu Rhaglenni.<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>NODI'R diweddariad llafar ar Lywodraethu Rhaglen | | |
| 3.6 | Codi Pryderon<br>Darparodd Laura Tolley, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol (LT) ddiweddariad llafar ar achos Codi Pryderon.<br>Cadarnhaodd LT fod gwaith yn cael ei wneud gyda chydweithwyr Pobl a Datblygiad Sefydliadol i sicrhau bod yr holl bartïon yn cael eu cefnogi'n briodol tra bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo.<br>Cadarnhaodd LT y byddai diweddariad, ynghyd â'r hyn a ddysgwyd o'r pryder, yn cael ei rannu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Ebrill.<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>NODI'R diweddariad llafar ar Godi Pryderon. | | |
| 4 | MATERION I GLOI | | |
| 4.1 | Eitemau ar gyfer Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd<br>Oherwydd cyfyngiadau amser byddai'r rhain yn cael eu trafod y tu allan i'r cyfarfod. | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 4.2 | Unrhyw Faterion Brys Eraill<br>Ni thrafodwyd unrhyw faterion Busnes Brys eraill. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 4.3 | Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf: 16 Ebrill 2024 | Nodwyd | Dim i'w nodi |